JONES, MOSES OWEN (1842-1908), ysgolfeistr, cerddor, a llenor

Enw: Moses Owen Jones
Dyddiad geni: 1842
Dyddiad marw: 1908
Rhiant: Ellen Jones
Rhiant: Owen Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr, cerddor, a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth
Awduron: Robert David Griffith, William Llewelyn Davies

Ganwyd 31 Hydref 1842 yn Gallt-y-foel, Dinorwig, Sir Gaernarfon, mab Owen ac Ellen Jones. Dechreuodd ei yrfa yn ddisgybl-athro yn Ysgol Frutanaidd Deiniolen. Yn 1861 aeth i Goleg Borough Road, Llundain, am gwrs o addysg. Yn Ionawr 1862 penodwyd ef yn is-athro yn ysgol y Carneddi, Bethesda. Ym Mai 1863 penodwyd ef yn bennaeth ysgol yn Treherbert, Rhondda, Sir Forgannwg, ac yno y treuliodd ei oes. Dechreuodd ddysgu cerddoriaeth gydag Evan Jones, arweinydd canu capel Annibynnol Ebeneser. Yn y coleg yn Llundain daeth i wybod am gyfundrefn y tonic sol-ffa, ac ymroddodd i'w dysgu. Yn 1868 penodwyd ef yn arweinydd canu capel Annibynwyr Carmel, Treherbert, ac i ganu'r offeryn, a chyflawnodd y gwaith tra bu byw. Cyfansoddodd nifer fawr o anthemau, rhanganau, caneuon, ac emyn-donau; ceir amryw o'i donau yn *Y Caniedydd Cynulleidfaol*. Yr oedd yn un o olygyddion *Y Caniedydd Cynulleidfaol*, 1895, a hefyd *Caniedydd yr Ysgol Sul.* Golygodd adran y sol-ffa o *Cronicl y Cerddor* o dan olygiaeth D. Emlyn Evans. Perfformiodd côr o dan ei arweiniad amryw gyfanweithiau, a llwyddo i ennill gwobrwyon mewn llawer o eisteddfodau. Gelwid hefyd am ei wasanaeth fel beirniad ac arweinydd cymanfaoedd canu.

Yr oedd M. O. Jones yn hanesydd a thraethodwr a lwyddodd droeon yn yr eisteddfodau cenedlaethol. Ei draethawd mwyaf adnabyddus, efallai, yw hwnnw a enillodd yn eisteddfod genedlaethol Llundain yn 1887 ac a gyhoeddwyd yn 1890 gan Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol, sef Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig; yr oedd M. O. Jones wedi ysgrifennu ' Hanes Bywgraphyddol a Beirniadol o Gerddorion Cymreig ' ar gyfer eisteddfod a gynhaliwyd yn Aberdâr yn 1885 (gweler N.L.W. MS. 4374-5). Ysgrifennodd ' Llyfryddiaeth Cerddoriaeth Gymreig' (hyd 1896) ar gyfer eisteddfod genedlaethol Caerdydd, 1899 (gweler N.L.W. MS. 4384). Ar gyfer eisteddfod genedlaethol Caerdydd 1883 ysgrifennodd ' Hanes Eisteddfodau y Ganrif Bresennol ' (N.L.W. MS. 4376); paratôdd hefyd ' Llawlyfr Hanesyddol o'r Prif Eisteddfodau ... hyd 1892 ' ar gyfer eisteddfod Chicago, 1893 (N.L.W. MS. 4377). Dau draethawd gwerthfawr o'i waith ydyw ' The History of the Development of the Coal Industry in the Rhondda Valleys for the last 50 years,' sef hyd 1895 (N.L.W. MS. 4378), a ' A History of the Parish of Ystradyfodwg, Glamorgan ' (N.L.W. MS. 4383). Gweler hefyd N.L.W. MS. 4371 ('Llen Gwerin Cymru'), N.L.W. MS. 4372 ('Y Trioedd Cymreig'), a N.L.W. MS. 4373, sef 'Biographies of Penry Williams (artist), Hugh Hughes (engraver), and Joseph Edwards (sculptor).' Bu farw 27 Gorffennaf 1908

Awduron

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Y Cerddor, Gorffennaf 1897, Medi a Tachwedd 1908

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734002

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu